OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2777 (Cy. 283)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 21B a 40 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ("Deddf 1990").

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu rhagflaenu gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014, a fewnosododd adran 21B yn Neddf 1990.

Mae adran 21B o Ddeddf 1990 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn ar gyfer rhai achosion yng Nghymru, sef achosion ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hatgyfeirio at Weinidogion Cymru o dan adran 20 ac apelau o dan adran 21 o Ddeddf 1990. Rhaid i Weinidogion Cymru bennu'r weithdrefn ar gyfer achosion o'r fath cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi mai saith niwrnod gwaith o'r dyddiad perthnasol yw'r cyfnod hwnnw, sy'n cael ei ddiffinio at y dibenion hyn.

Paratowyd asesiad effaith mewn perthynas â'r offeryn hwn. Gellir cael copïau oddi wrth Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2777 (Cy. 283)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Hydrefr 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *17 Hydref 2014* |
| *Yn dod i rym* | *12 Tachwedd 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 21B(**1**) o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ac a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 40(**2**) o'r Ddeddf honno, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Pennu'r Weithdrefn) (Cyfnod Rhagnodedig) (Cymru) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 12 Tachwedd 2014.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

(**1**) 1990 p. 10. Mewnosodwyd adran 21B o Ddeddf 1990 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pennu'r Weithdrefn) (Cymru) 2014, O.S. 2014/2773 (Cy.280).

(**2**) Mae diwygiadau i adran 40 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990.

**Cyfnod rhagnodedig**

**2.**—(1) Saith niwrnod gwaith o'r dyddiad perthnasol yw'r cyfnod rhagnodedig at ddibenion adran 21B(3) o Ddeddf 1990.

(2) Ym mharagraff (1)—

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl y Banc nac yn ŵyl gyhoeddus arall yng Nghymru; ac

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw—

(a) o ran atgyfeiriadau o dan adran 20(**1**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r atgyfeiriad gan yr awdurdod sylweddau peryglus; a

(b) o ran apêl o dan adran 21(**2**) o Ddeddf 1990, y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad o'r apêl ynghyd ag unrhyw wybodaeth a ragnodir.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

14 Hydref 2014

(**1**) Mae diwygiadau i adran 20 o Ddeddf 1990 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Diwygiwyd adran 21 o Ddeddf 1990 gan adran 197 o Ddeddf Cynllunio 2008 a pharagraff 6 o Atodlen 11 iddi. Mae diwygiadau eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.